| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | **Cystadleuaeth 138 – Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9** |
| | **Methu dianc, Myrddin ap Dafydd** |

Mae bwli'r cae chwarae wedi troi
Yn fwli ar ffôn – a does dim ffoi:
Dim rhedeg adref rhag y dyrnau,
Dim mynd i gornel, draw o'r golau.

Mae'r llun yn fyw, yn rhedeg yn rhydd,
Y geiriau'n dal i daro drwy'r dydd
Ac mae nhw'n gallu cywilyddio
A brifo gormod i allu'u printio.

Bwlio seiber yw bod mewn sgwâr bocsio
A methu'n lân â dod oddi yno;
Breichiau ar raffau, y pen i lawr
A'r corff yn wan dan y dyrnu mawr;
Dyheu am adael ond methu … methu …
A neb yn mynd at y gloch i'w chanu;
Mae'r cweir yn mynd 'mlaen a 'mlaen a 'mlaen
Nes bydd rhywun yn chwalu dan y straen,
Ond does dim creithiau ar y croen
A does dim briw lle ti'n teimlo poen.

Ymhob gêm, mae reffarî
Ac mae rheolau ar faes pob sbri;
Mae'n rhaid cael chwiban, mae'n rhaid cael trefn -
Paid â derbyn a throi dy gefn.
Dos am y bwtwm "Allan â'r Bwli!"
Dwed wrth rywun be' sy'n dy boeni:
Bwlio seiber – bwlio heb seibiau;
Bwlio sy'n brifo heb ddangos briwiau.